Cynllun Grant Amddifadedd- Ysgol T Llew Jones 2016 - 2017

Darpariaeth	Disgrifiad	
Rhaglen ymyrraeth	22 elfen amrywiol o ymyrraeth yn cael ei gynnig o fewn amserlen wythnosol yr ysgol: Cymorth LSA , Darpariaeth is-sgiliau dysgu, Strategaeth SATPIN, Strategaeth TRANDEP, Ymyrraeth darllen unigol, Atgyfnerthu TRANDEP, Catch Up, Dyfal Donc, SULP, Ymyrraeth rhifedd, Strategaethau sillafu penodol, LABSSA, SALTSA, SEBSA, MAT Cym, MAT Saes, M A T, Maths, Darpariaeth asiantaeth allanol, Mewnbwn sensori, Cefnogaeth yn y dosbarth, darllen grŵp a dosbarth maethu.	
Rhaglen MAT	Grwpiau MAT Cymraeg Saesneg a Mathemateg wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn. Grwpiau bach ar gyfer oedran penodol. Tasgau ymestynnol yn seiliedig ar yr hyn sydd yn cael ei addysgu a dysgu yn y dosbarth.	
Dosbarth Maethu	Criw Twm Sion Cati yn cyfarfod am 2 prynhawn a 3 hanner prynhawn yr wythnos er mwyn cynnig rhaglen maethu yn seiliedig ar ymchwil a gweithgareddau'r Nurture Group. Ffocws penodol ar hunan hyder, hunan reolaeth, ymddygiad, cyfrannu mewn grŵp a sefyllfa gyhoeddus. Asesiadau penodol Boxhall profile er mwyn nodi effaith y ddarpariaeth ar y disgyblion. Rhieni yn derbyn gwahoddiad pob tymor i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r dydd. Hyn wedi bod yn effeithiol iawn wrth i rieni drafod eu gofidion ac anghenion mewn sefyllfa anffurfiol.	
Grwpiau llythrennedd a rhifedd CS	O dan arweiniad athrawes dosbarth mae 'Hwylusydd ' iaith a rhifedd y CS yn arwain rhaglen o weithgareddau ar gyfer disgyblion sydd angen hwb gyda gwaith llythrennedd a rhifedd. Gall hyn fod oherwydd eu bod yn dysgu'r Gymraeg neu fod angen gwaith ymestynnol. Mae'r athrawes fro yn treulio 2 tymor y flwyddyn yn gweithio gyda grŵp o ddisgyblion Mat blwyddyn 2 mewn grŵp ffocws.	
Gweithgareddau allgyrsiol	**Clwb brecwast** **Clybiau ar ôl ysgol-**	Gall disgyblion gychwyn yr ysgol am 8.00 bob bore gan ein bod yn cynnig gwasanaeth clwb brecwast. Cynhelir clwb gofal ar ôl ysgol er mwyn gofalu am ddisgyblion hyd 5.30. Mae'r ddwy elfen uchod yn gymorth i rieni ddychwelyd i'r gwaith oherwydd ein gofal cofleidiol. Cynhelir clybiau Chwaraeon ac Urdd ar Nos Fercher ar gyfer disgyblion bl2 a hyn. Yn ystod tymor yr Haf mae gwahanol glybiau yn cael eu cynnig.
	Teithiau addysgiadol-	Wrth drefnu rydym yn holi rhieni/ gwarchodwyr am gyfraniad tuag at y gost yn hytrach na thal. Byddwn hefyd yn cysylltu â rhieni os nad yw disgybl yn cymryd rhan yn y daith oherwydd cyfyngder ariannol.
	Gwersylla-	Wrth drefnu rydym yn holi rhieni/ gwarchodwyr am gyfraniad tuag at y gost yn hytrach na thal. Byddwn hefyd yn cysylltu â rhieni os nad yw disgybl yn cymryd rhan yn y daith oherwydd cyfyngder ariannol.
	Gwibdeithiau-	Wrth drefnu rydym yn holi rhieni/ gwarchodwyr am gyfraniad tuag at y gost yn hytrach na

		thal. Byddwn hefyd yn cysylltu â rhieni os nad yw disgybl yn cymryd rhan yn y daith oherwydd cyfyngder ariannol. E.e. teithiau rygbi.
Adnoddau dosbarth	Rydym yn archebu adnoddau ar gyfer y dosbarth cyfan ac felly nid oes rheidrwydd ar unrhyw ddisgybl i archebu offer ar gyfer y diwrnod ysgol e.e. pensiliau, offer lliwio, offer ysgrifennu ayyb. Rydym yn benthyca dillad ymarfer corff fel bo angen.	
Rhaglenni rhieni	Rydym yn cynnal rhaglenni i rieni yn dymhorol er mwyn cynorthwyo eu disgyblion gyda'u dysgu. Cynhelir rhai yn ystod diwrnod yr ysgol a gyda'r hwyr. Cynigir cyrsiau 2 awr a chyrsiau boreol.	